



Llawlyfr Myfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig

Diwygiwyd ddiwethaf 2017

Yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg (IMPACS)

Llawlyfr Myfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig v. 2017: IMPACS
Golygwyd gan mis37.

Dyddiad: 22.08.17
Fersiwn: 1.0

Hawlfraint © 2016 IMPACS, Prifysgol Aberystwyth

Rhagair	2
1. Arolygu Ymchwil	3
2. Graddau Ymchwil - Rheoliadau	3
3. Cyfathrebu	3
4. Presenoldeb	4
5. Ffynonellau Cyllid	4
6. Trefn Fonitro	4
7. Llên-ladrad ac Arfer Annheg	5
8. Rheoliadau ar gyfer Defnyddio Offer	6
9. Cymorth i Fyfyrwyr	6
10. Manteisio i'r eithaf ar eich cyfnod gyda ni	7
11. Cyfrifoldebau Gweinyddol	9

Rhagair

Llawlyfr yw hwn i'r holl fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau ymchwil uwchraddedig yn yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg (IMPACS), sy'n cynnwys yr Adrannau Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg. Fe'i paratowyd er mwyn eich helpu i ddeall sut mae'r adrannau wedi'u trefnu o fewn yr Athrofa ac, yn unol â gofynion y Brifysgol, i dynnu eich sylw at reolau a rheoliadau perthnasol.

Noder bod y deunydd hwn yn ychwanegol at:

Reoliadau academiaidd ar y we (<https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/students/pg-issues/research/>) yn enwedig y rheolau ar <https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/>

Dogfennau a llawlyfrau Ysgol y Graddedigion (<https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/forms-handbooks/>)

1. Arolygu Ymchwil

Yn eich dewis faes ymchwil, byddwch yn astudio'r pwnc sydd o ddiddordeb i chi o fewn grŵp ymchwil sefydledig sy'n weithgar yn rhyngwladol, a dan arolygaeth aelod o'r staff academiaidd sy'n weithgar yn y maes. Dylech gytuno ar raglen waith gyda'ch arolygydd/arolygwyr, a darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd ar eich ymchwil. Yn ogystal, bydd gofyn ichi baratoi adroddiad cynnydd ffurfiol byr o leiaf unwaith y flwyddyn i'w gyflwyno i Bwyllgorau Monitro Myfyrwyr Ymchwil y Brifysgol (gweler adran 6). Eich nod yn y pen draw yw cynhyrchu ac amddiffyn traethawd ymchwil sy'n manylu ynghylch eich cyfraniad at yr ymchwil, ond wrth wneud hynny cewch gyfle i ddatblygu sgiliau ymchwil sy'n hanfodol ar gyfer gwyddonydd proffesiynol. Mae'n debyg mai eich traethawd ymchwil fydd un o'r darnau pwysicaf o waith y byddwch yn ei gynhyrchu yn ystod eich oes.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich Arolygydd yn cael gwybod am unrhyw broblemau yn ymwneud â'ch ymchwil.

Rhaid ichi roi esboniad digonol am unrhyw fethiant i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu i gyflawni unrhyw ymrwymadau eraill, fel y gellir cynnig arweiniad priodol.

Gan ymgynghori â'ch arolygydd, dylech gytuno ar amserlen ar gyfer bwrw ymlaen â'ch traethawd ymchwil a'i gyflwyno'n brydlon.

2. Graddau Ymchwil - Rheoliadau

Mae'r Brifysgol yn dyfarnu dwy radd uwch drwy ymchwil yn yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg: Doethur mewn Athroniaeth (PhD) a Meistr mewn Athroniaeth (MPhil). Rhaid i draethawd ymchwil ar gyfer gradd Doethur mewn Athroniaeth fod yn gyfraniad arwyddocaol at wybodaeth, sy'n deilwng i'w gyhoeddi ac sy'n rhoi tystiolaeth o allu'r ymgeisydd i gyflawni ymchwil bellach heb arolygaeth. Bydd ymgeiswyr ar gyfer gradd Meistr mewn Athroniaeth yn dilyn rhaglen ymchwil fydd yn arwain at gyflwyno traethawd ymchwil, a rhaid i'r traethawd hwnnw gynnwys adolygiad beirniadol o'r gwaith cyhoeddedig yn y maes ymchwil a rhoi tystiolaeth o allu ymchwil; rhaid iddo fod yn gyfraniad pendant i ysgolheictod ym maes yr ymgeisydd.

Mae'r Brifysgol yn gosod hyd y cyfnodau astudio ar gyfer graddau ymchwil yn ei Rheoliadau ar gyfer graddau uwch, a dylid darllen y rheoliadau hynny er mwyn cael gwybodaeth fanwl, gan y gallant newid. Bydd y terfynau amser ar gyfer cofrestru a chyflwyno traethodau ymchwil yn dibynnu ar flwyddyn eich cofrestrriad a'r telerau a nodwyd wrth eich derbyn i'r cwrs gradd. Mae'r rheolau ar gyfer y graddau hyn ar gael ar <https://www.aber.ac.uk/cy/agro/students/pg-issues/research/>. Os oes gennych unrhyw amheuan, gofynnwch i'ch Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig neu'r Swyddfa Ansawdd Academiaidd a Chofnodion. Mae'r terfynau amser sy'n berthnasol i bob myfyriwr yn unol â'r hyn a nodir yn y llythyr cynnig gan y Swyddfa Graddedigion.

Os bydd eich Arolygydd yn dweud wrthyfch bod eich traethawd ymchwil yn barod i'w gyflwyno i'w arholi, nid yw hyn o reidrwydd yn gwarantu y bydd yn pasio; nid oes angen cytundeb eich arolygydd arnoch er mwyn cyflwyno traethawd ymchwil. Chi sy'n gyfrifol am ganfod y drefn gyflwyno gywir. Cynhelir y viva voce yn unol â rheoliadau'r Brifysgol: ni fydd eich arolygydd yn un o'ch arholwyr. Rhaid i'r Brifysgol gynnal ei harholiadau mewn modd sy'n gyson â chysyniadau uniondeb a didueddrwydd, a rhaid iddi hefyd gael ei gweld yn gwneud hynny gan ei myfyrwyr a'r byd oddi allan; mae hyn yn golygu ei bod yn amhriodol i'r arolygydd, a fydd wedi bod yn ymwneud yn agos â chynhyrchu'r traethawd ymchwil, fod yn gysylltiedig â'i arholi. Mae'n bolisi gan y Brifysgol, fodd bynnag, y gellir gwahodd eich arolygydd i fod yn bresennol yn yr arholiad llafar. Os mynnwch i'ch arolygydd fod yn bresennol, dylech roi gwybod i Gadeirydd y Bwrdd Arholi mewn da bryd cyn y viva. Os bydd eich arolygydd yn bresennol, bydd rhyddid gan y Cadeirydd i'w eithrio ef/ei heithrio hi o rannau o'r trafodaethau fel y bo'n briodol: bydd ef/hi yn bresennol mewn capasiti ymgynghorol ac fel arsylwr. Bydd yr arholwr mewnol yn aelod o staff y Brifysgol a chanddo ddiddordeb ym maes eich ymchwil.

Pwysig: Rhwng un a thri mis cyn y bwriadwch gyflwyno (neu ailgyflwyno) eich traethawd ymchwil, rhaid i chi gofio llenwi ffurflen “Bwriad i Gyflwyno”.

3. Cyfathrebu

Yn yr Athrofa rydym yn defnyddio post electronig fel ein prif ddull o gyfathrebu â'n myfyrwyr. **Dylech felly fewngofnodi i'r system yn rheolaidd a darllen eich negeseuon ebost.** Os gwnewch unrhyw drefniadau (megis anfon negeseuon ymlaen) sy'n golygu y gall eich gwasanaeth ebost fod yn annibynadwy, nid yw hynny'n esgus dros fethu ag ymateb.

Mewn rhai achosion, gadewir negeseuon i fyfyrwyr yn Ystafell Bost y Gwyddorau Ffisegol yn adeilad y Gwyddorau Ffisegol (myfyrwyr Mathemateg a Ffiseg) neu ym mlychau post y grŵp ymchwil yn yr Ystafell Goffi Cyfrifiadureg (myfyrwyr Cyfrifiadureg). **Anfonir gwybodaeth bwysig i'r cyfeiriad yr ydych wedi'i ddarparu. Rhaid i chi roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriad neu eich rhif ffôn. Gallwch wneud hyn ar-lein ar <https://studentrecord.aber.ac.uk/cy/login.php>**

4. Presenoldeb

Os ydych yn fyfyrwr ymchwil uwchraddedig **llawn-amser** mae disgwyl i chi fod yn bresennol yn y Brifysgol am **isafswm o 44 wythnos** ym mhob blwyddyn academaidd o'ch cyfnod cofrestru. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall fod angen i fyfyrwyr gyflawni cyfnodau o waith maes neu gasglu data ymaith o Aberystwyth. **Rhaid i unrhyw absenoldebau sy'n hwy na 3 wythnos gael eu cymeradwyo o leiaf bythefnos ymlaen llaw gan Gyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig yr Adran ar ran y Pennaeth Adran. Rhaid gofyn am ganiatâd, a CHAEL Y CANIATÂD HWNNW, cyn ichi drefnu teithio, ac o leiaf bythefnos ymlaen llaw.**

Os ydych yn fyfyrwr ymchwil uwchraddedig **rhan-amser** dylech gytuno ar amserlen presenoldeb gyda'ch arolygydd a Chyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig yr Adran.

Os ydych yn fyfyrwr ymchwil uwchraddedig **Tramor/Ddim o'r UE**, yna yn ogystal â'ch cyswllt rheolaidd â'ch arolygydd/arolygwyr, a fydd yn cael ei gofnodi yn unol â **rheoliadau UKVI**, bydd gofyn ichi gydymffurfio â rheoliadau monitro presenoldeb fel y nodir gan y Swyddfa Gydydffurfio yn y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion. Rhaid cytuno ar unrhyw absenoldeb o'r Brifysgol gyda'ch arolygydd a rhoi gwybod amdano i Weinyddwr Gweithrediadau Academaidd: Ymchwil yr Athrofa. Mae hyn yn ychwanegol at y rheol uchod ynghylch absenoldebau sy'n hwy na thair wythnos.

<http://www.aber.ac.uk/en/international/compliance-information/yourresponsibilities/>

Bydd holl fyfyrwyr ymchwil yr Athrofa yn cael gofod swyddfa, a bennir gan Bennaeth eu Hadran berthnasol. Ni chaniateir i fyfyrwyr newid ystafelloedd heb i hynny gael ei awdurdodi. Ystafelloedd er mwyn astudio ydynt yn bennaf. Dylid cadw sgysiau ag ymwelwyr â'ch ystafell yn fyr er mwyn peidio â tharfu ar astudiaethau'r rheini sy'n rhannu ystafell â chi.

5. Ffynonellau Cyllid

Cystadleuaeth Ysgoloriaethau Doethurol Aberystwyth (Aberdoc)

Er gwybodaeth YN UNIG y mae'r manylion isod. Fel arfer cyhoeddir manylion y gystadleuaeth flynyddol bob mis Tachwedd, ar <https://www.aber.ac.uk/cy/postgrad/fees-finance/uk-eu/research-competition/>, a'r dyddiad cau yw'r 1af o Fawrth. Gellir ystyried myfyrwyr PhD presennol sydd ar eu blwyddyn gyntaf a'u hail flwyddyn ac nad ydynt wedi'u cyllido'n llawn.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnal cynllun ysgoloriaethau doethurol (PhD) (Aberdoc) sy'n cynnig pecyn o ymchwil, hyfforddiant a datblygiad gyrfa i fyfyrwyr PhD llawn-amser. Mae'r gwobrau hyn wedi'u teilwra i alluogi i fyfyrwyr ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni eu dewisiadau gyrfa ac maent yn cynnig ystod o gyfleoedd datblygu er mwyn cyfoethogi eu sgiliau ymchwil ac addysgu a'u sgiliau trosglwyddadwy.

Bydd myfyrwyr sy'n rhan o'r cynllun yn gwneud cyfraniad y cytunwyd arno i'r Athrofa ac i'r Brifysgol fel un o amodau'r ysgoloriaeth PhD. Ond nid addysgu yw'r unig opsiwn. Gallai'r cyfraniad datblygu gyrfa olygu ymchwil, gwaith golygyddol, lleoliadau proffesiynol neu gyfleoedd datblygu proffesiynol eraill sydd hefyd o gymorth i'r Adran dan sylw.

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer Ysgoloriaethau Aberdoc y Brifysgol yn seiliedig ar ansawdd yr ymgeisydd, ansawdd ei gynnis ymchwil, y berthynas â diddordebau ymchwil yr arolygydd/adran a chyfweiliad i'r holl ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer. Yna bydd pob Adran yn gosod yr holl ymgeiswyr mewn trefn ac yn gwneud argymhellion i fwrdd ar lefel y Brifysgol, a fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol. O'r herwydd mae'r gystadleuaeth yn un gref ac fe'ch cynghorir i drafod eich cais â'ch arolygydd neu eich arolygydd arfaethedig mewn da bryd.

Teithio i gynadleddau

Mae llawer o gynadleddau yn cynnig grantiau i fyfyrwyr PhD fod yn bresennol, a daw rhai ysgoloriaethau PhD ag arian i deithio yn rhan ohonynt (gan gynnwys Aberdoc). Mae myfyrwyr PhD hefyd yn gymwys i ymgeisio am Gronfa Gooding Prifysgol Aberystwyth. Yn ogystal, gweler Atodiad A am fanylion y Fwrsariaeth Deithio i Fyfyrwyr Ymchwil.

6. Trefn Fonitro

Bydd pob myfyrwr ymchwil yn cael ei fonitro'n flynyddol ym mis Mai/Mehefin; yr unig eithriad yw y bydd myfyrwyr nad ydynt yn cychwyn ym mis Medi yn cael eu monitro yn eu blwyddyn gyntaf wedi naw mis, cyn ymuno â'r cylch Mai/Mehefin. Mae'n bosibl y bernir bod monitro pellach yn angenrheidiol, er enghraifft ym mis Medi os canfuwyd problemau ym mis Mehefin. Mae'r broses fonitro yn seiliedig ar system o adroddiadau, gennych chi a'ch arolygydd. Ystyrir y rhain gan yr Adran, cyn iddynt gael eu hanfon ymlaen at Bwyllgor Monitro Ymchwil y Brifysgol.

Mae'r monitro yn cynnwys asesu yn erbyn cynllun gweithredu y cytunwyd arno yn y cyfarfod blaenorol. Bydd gofyn cael cynnydd boddhaol er mwyn caniatáu symud ymlaen i'r flwyddyn gofrestru nesaf.

Ar gyfer myfyrwyr PhD, ceir cyfnod prawf o flwyddyn academiaidd ar gyfer ymgeiswyr llawn-amser a dwy flynedd academiaidd ar gyfer ymgeiswyr rhan-amser, oni bai bod eithriad wedi'i gymeradwyo dan y rheoliadau priodol. Gwneir y penderfyniad i ganiatáu i fyfyrwyr symud ymlaen o'r cyfnod prawf ar sail argymhelliad i Bwyllgor Monitro Ymchwil y Brifysgol. Mewn achosion o'r fath, gwneir argymhelliad yr Adran ar sail cyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar gynydd yr ymchwil a chyfweiliad. **Fe'ch anogir yn gryf i gael adborth ar eich adroddiad gan eich arolygydd cyn iddo gael ei gyflwyno.**

Cynhelir y cyfweiliad gan bwyllgor adrannol annibynnol, er mwyn asesu cynnydd a chynnig cyngor ac anogaeth.

Rhaid cyflwyno adroddiadau blwyddyn gyntaf fel a ganlyn:

Ar gyfer monitro ym mis Mehefin – erbyn 31 Mai fan bellaf; ac

Ar gyfer monitro ym mis Medi – erbyn 31 Awst fan bellaf.

Bydd myfyrwyr ail a thrydedd flwyddyn hefyd yn cael eu hasesu'n flynyddol tua mis Mai/Mehefin.

7. Llên-ladrad ac Arfer Annheg

Mae Arfer Annheg yn cynnwys mwy na dim ond llên-ladrad.

Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r **Rheoliad Academaidd ar Arfer Annheg**, sydd ar gael gyda'r wybodaeth am y rheolau ar gyfer arholiadau ac asesu ar <https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/uap/>

Fel y gwelwch, mae'n bwysig nodi'n glir yn eich gwaith eich hun y manau hynny lle rydych wedi cynnwys gwaith pobl eraill. Gallai hyn gynnwys ailddefnyddio dyluniadau a rhaglenni yn ogystal â chopïo neu ddyfynnu testun. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall sut i gydnabod gwaith pobl eraill yn eich holl gyflwyniadau. Nid yw anwybodaeth ynghylch sut i wneud hyn yn amddiffyniad dilys.

Diben y canllawiau syml isod yw eich cynorthwyo i osgoi crwydro o dir cydweithio dilys, manteisiol i dir llên-ladrad:

- atodi llyfryddiaeth i'ch gwaith, yn rhestru'r holl ffynonellau yr ydych wedi'u defnyddio, gan gynnwys y rhai electronig;
- defnyddio dyfynodau o amgylch yr holl ddyfyniadau uniongyrchol, a nodi'r union ffynhonnell (gan gynnwys rhifau tudalen, neu'r URL a'r dyddiad pan gyrchwyd y dudalen, os mai ffynhonnell ar y we yw hi) naill ai mewn troednodyn neu rhwng cromfachau yn syth wedi'r dyfyniad;
- byddwch yn gynnwl yn eich defnydd o ddyfyniadau a gwnewch yn siŵr mai eich geiriau chi yw rhan helaeth y gwaith;
- hyd yn oed os nad ydych yn defnyddio dyfyniadau uniongyrchol, dylid cydnabod syniadau pwysig o hyd;
- mae'n bwysig cydnabod cyhoeddiadau cynharach yn briodol, hyd yn oed os mai eich eiddo chi neu eich arolygydd ydynt, a pheidio ag atgynhyrchu testun air am air heb nodi mai dyfyniad ydyw, hyd yn oed os mai eich gwaith cynharach chi eich hun ydyw;
- eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl gyd-awduron ac arolygwyr ymchwil yn ymwybodol o gynnwys unrhyw waith yr ydych am ei gyhoeddi neu ei ddsbarthu mewn unrhyw fodd;
- cofiwch mai eich mewnbwn gwreiddiol chi sy'n rhoi gwerth i ddarn o waith;

Pa ffynonellau bynnag yr ydych wedi eu defnyddio, chi ddylai fod yn gyfrifol am y modd y mae'r ddadl yn cael ei strwythuro a'i chyflwyno. Os ydych yn defnyddio ffynonellau electronig, peidiwch â thorri a gludo rhannau ohonynt i mewn i'ch gwaith. Os ydych yn defnyddio llyfrau neu bapurau, rhowch hwy i'r naill ochr pan fyddwch yn mynd ati i ysgrifennu. Drwy wneud hyn, ni chewch eich temptio i gopïo deunydd nad ydych yn ei ddeall, ac ni fyddwch mewn perygl o gopïo mwy o ddeunydd na dim ond dyfyniad byr yn anfwriadol, neu adael dyfyniadau heb eu nodi yn ddamweiniol. Mae'n rhwydd canfod gwaith rhywun arall sydd wedi'i gynnwys yn eich gwaith chi eich hun gan y bydd yr arddull yn wahanol.

Peidiwch â mynd dros ben llestri, a defnyddiwch synnwyr cyffredin a chrebwyll. Er enghraifft, nid oes angen priodoli ffynhonnell ar gyfer datganiadau sydd wedi dod yn gyffredin yn y parth cyhoeddus.

Fel arfer ni fydd angen nodi ffynhonnell deunydd darlithoedd, ond unwaith eto dylech osgoi dyfynnu'n helaeth, ac ni ddylech fyth ddibynnu'n llwyr ar nodiadau darlith.

Os oes gennych unrhyw amheuon, gwnewch yn siŵr eich bod yn dyfynnu ac yn priodoli deunydd yn gywir er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth eich bod yn ceisio twyllo, a gofynnwch am gyngor os ydych yn ansicr.

8. Rheoliadau ar gyfer Defnyddio Offer

Dau brif adnodd ymchwil y Brifysgol yw'r cyfleusterau Llyfrgell a Chyfrifiadura. Mae gofyn i'r holl fyfyrwyr gydymffurfio â'r rheolau a nodir gan y Gwasanaethau Gwybodaeth yn:

<http://www.aber.ac.uk/en/regulations/contents/student/regulations/regulations-5/>

Yn ogystal, disgwylir i fyfyrwyr gydymffurfio ag unrhyw amodau pellach ynghylch defnyddio'r adnoddau a bennir gan yr Athrofa neu'r Adrannau sy'n rhan ohoni. Yn benodol, dim ond os yw'r defnydd yn amlwg o fewn amodau defnydd y cyflenwr a bod y trwyddedau priodol ar waith y cewch ddefnyddio meddalwedd/rhaglenni.

Os yw eich defnydd o'r adnoddau yn groes i unrhyw rai o reolau'r Brifysgol neu'n torri unrhyw reolau a gyhoeddir gan yr Adran ym marn eich Pennaeth Adran, gellir tynnu eich hawl i gyrchu'r adnoddau yn ôl yn y fan a'r lle.

Cyn dechrau ar eich prosiect, rhaid ichi fynychu cwrs cyflwyno byr ar iechyd a diogelwch, a gydlynir gan Gyfarwyddwr Seilwaith yr Athrofa. Yna rhaid i'r myfyriwr a'r arolygydd gynnal asesiad risg o'r prosiect. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y ffurflen briodol, sy'n cadarnhau bod asesiad risg wedi'i gynnal, yn cael ei llofnodi gennych chi a'ch arolygydd a'i rhoi i Swyddog Diogelwch yr Adran. Rhaid i unrhyw newidiadau mewn arferion gwaith a allai newid yr asesiad risg ar unrhyw gam yn ystod y prosiect gael eu trafod â'ch arolygydd a'r Swyddog Diogelwch cyn cael eu cyflwyno, a bydd yn rhaid cyflwyno ffurflen asesiad risg newydd.

Gwybodaeth Diogelwch Tân: treuliwch amser yn ymgyfarwyddo â'r allanfeydd tân a gweithdrefnau gadael yr adeilad. Mae'r manylion wedi'u harddangos mewn lleoliadau cyflewus ledled adeiladau'r Athrofa. Dylai unrhyw un sy'n darganfod tân seinio'r larwm a galw'r Frigâd Dân. Ffoniwch **222** o unrhyw ffôn mewnol, a geir yn y rhan fwyaf o swyddfeydd staff ac ystafelloedd terfynellau cyhoeddus. Os ceir tân, gadewch yr adeilad yn dawel a heb redeg, gan ddefnyddio'r allanfa agosaf sydd ar gael. Mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn rhai brys, gallwch gysylltu â diogelwch PA ar 2649.

NI CHANIATEIR YSMYGU YN UNRHYW LE O FEWN NA GERLLAW ADEILADAU'R BRIFYSGOL

9. Cymorth i Fyfyrwyr

9.1. System Cymorth i Fyfyrwyr y Brifysgol

Mae System Les y Brifysgol yn darparu gwasanaethau cymorth a chyngori i'r holl fyfyrwyr:

<https://www.aber.ac.uk/cy/student-support/>

Os oes gennych anghenion arbennig, os hoffech gael eich gwerthuso, neu er mwyn dysgu mwy am eu gwasanaethau, mae'n syniad da trefnu apwyntiad gyda hwy.

9.2. Swyddfa Gyrfaoedd

Mae'r Brifysgol yn gweithredu gwasanaeth Gyrfaoedd gwych. Awgrymwn eich bod yn ymgynghori â hwy er mwyn cael y cyngor gorau ar astudiaethau pellach ac/neu eich gyrfa i'r dyfodol.

9.3. Arolygwyr

Pennir aelod o staff fel arolygydd ac ail aelod o staff i weithredu fel ail arolygydd ar gyfer pob myfyriwr sy'n astudio am radd ymchwil sy'n ymwneud â'r Adrannau Mathemateg a Ffiseg neu Gyfrifiadureg. Prif rôl yr arolygydd cyntaf yw helpu i lywio'r ymchwil, fel y disgrifir yn Adran 1, ond gall hefyd fod yn bwynt cyswllt cyntaf am gyngor ar broblemau anacademaidd, megis anawsterau sy'n codi yn sgil salwch, problemau personol, pryderon ariannol, problemau llety ac ati. Yn aml bydd angen cymorth arbenigol ar gyfer problemau o'r fath a bydd eich arolygydd yn aml yn gallu eich rhoi mewn cysylltiad â chynghorwyr arbenigol.

Ar rai achlysuron mae'n bosibl y byddai'n well gennych ymwneud â rhywun heblaw eich arolygwyr. Os digwydd hyn, mae croeso i chi gysylltu â Chyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig eich Adran.

Dylai myfyrwyr a chanddynt anghenion arbennig roi gwybod amdanynt i'r Cydlynnydd Anghenion Arbennig.

Os nad ydych yn fodlon ar eich arolygydd/arolygwyr dylech gysylltu â Chyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig eich Adran yn gyntaf (neu Gyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig yr Athrofa, os mai eich arolygydd yw Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig eich Adran).

9.4. Pwyllgor Cyswllt Staff a Myfyrwyr a'r Pwyllgor Ymgysylltu Myfyrwyr Ymchwil

Diben y Pwyllgorau Cyswllt Staff a Myfyrwyr yw annog cyswllt rhwng staff academaidd yr Athrofa a chorff y myfyrwyr. Gall y Pwyllgorau hyn chwarae rhan yn siapio polisi'r Athrofa trwy gyfrwng eu haelodau etholedig. Rhoddir y cyfle i fyfyrwyr uwchraddedig ac israddedig benodi cynrychiolydd/cynrychiolwyr ar gyfer eu Pwyllgor yn gynnar yn y sesiwn.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu sylwadau, adeiladol neu fel arall, dylech gysylltu â'ch cynrychiolydd fel y gellir crybwyll y mater yn y cyfarfod nesaf. Fel arfer bydd y Pwyllgorau'n cwrdd unwaith bob Semester.

Gall cynrychiolydd o'r Adran fynd ag unrhyw faterion na ellir ymdrin â hwy o fewn yr Athrofa gerbron Pwyllgor Ymgysylltu Myfyrwyr Ymchwil y Brifysgol.

9.5. Trefn Apelio a Chwyno'r Brifysgol

Mae'r Adrannau bob amser yn ceisio gwneud eu gorau i ddatrys unrhyw broblemau sydd gan y myfyrwyr, ond os teimlwch eich bod wedi cael eich trin yn annheg mewn unrhyw fodd, mae gennych yr hawl i gwyno.

Disgrifir Trefn Apeliadau a Chwynion y Brifysgol mewn Atodiad i'r Rheolau a'r Rheoliadau i fyfyrwyr, ac mae ar gael ar <https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/>.

Cwynion: Un o egwyddorion cyffredinol y drefn honno yw *"Disputes should be resolved at the lowest level possible in the procedure. In the interests of harmonious relationships informal procedures should, so far as is reasonably practicable, be exhausted prior to entering the formal procedure."*

Os ydych yn anfodlon ag unrhyw agwedd ar eich cwrs neu ddarpariaeth y Brifysgol, gallwch ddilyn Trefn Gwyno'r Brifysgol. Dan y drefn hon, dylech geisio mynd i'r afael â'r broblem ar y lefel isaf bosibl, a'i datrys yn anffurfiol, ond os nad yw hyn yn bosibl gellir mynd â'r gŵyn i gam ffurfiol. Os oes gennych broblemau o fewn yr Adran, dylech fynd at eich arolygydd yn y lle cyntaf, neu eich Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig. Cyfeirir y mater at eich Pennaeth Adran ac os na ellir ei ddatrys, neu os mynnwch fynd ag ef ymhellach, fe'i cyfeirir at Gyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig yr Athrofa ac yna at Gyfarwyddwr yr Athrofa ac/neu Bennaeth Ysgol y Graddedigion.

Apeliadau: Rhoddir gwybod ichi am Weithdrefnau Apelio'r Brifysgol pan fyddwch yn cael canlyniad eich PhD neu os cewch eich atal rhag symud ymlaen o un flwyddyn astudio i'r nesaf. Os oes gennych sail ddilys i apelio,

bydd panel annibynnol yn ystyried eich apêl. Efallai yr hoffech geisio cyngor gan eich arolygydd, neu staff eraill yn yr Adran neu'r Athrofa, neu gan Undeb y Myfyrwyr.

10. Manteisio i'r eithaf ar eich cyfnod gyda ni

10.1. Ymarfer Astudio a Sgiliau Academaidd

Gall Cymorth i Fyfrwyr roi cyngor ar ymarfer astudio a sgiliau academaidd:

<https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/>

Bydd gofyn ichi hefyd fynychu cyrsiau a hyfforddiant ar gyfer y sgiliau cyffredinol sy'n ofynnol ar gyfer gwaith ymchwil a chyrsiau arbenigol sy'n berthnasol i'ch maes astudio penodol. Mae'n bosibl y bydd yna hefyd gynadleddau neu weithdai a fydd yn uniongyrchol berthnasol i'ch gwaith, a dylech drafod cyfarfodydd posibl â'ch arolygydd.

Bydd siaradwyr gwadd yn cyflwyno seminarau ar adegau amrywiol o'r flwyddyn. Mae'r sgysiau'n rhan *hanfodol* o hyfforddiant ymchwil a disgwylir i fyfyrwyr fynychu'r *holl* seminarau ym maes ehangach eu hymchwil.

Disgwylir i chi hefyd gymryd rhan yn y broses Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer myfyrwyr ymchwil. Mae DPP yn rhan arferol o fywyd gwaith proffesiynol, a bydd ymwneud â'r broses hon yn rhan reolaidd o'ch gwaith uwchraddedig yn eich cynorthwyo i wireddu eich potensial yn academaidd ac yn bersonol. Bydd yn rhoi profiad ichi o broses broffesiynol yr ydych yn debygol o ymwneud â hi trwy gydol eich gyrfa yn y dyfodol.

10.2. Canolfan Saesneg Ryngwladol

Mae'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol (<http://www.aber.ac.uk/en/international-english/>) yn darparu cyrsiau Saesneg trwy gydol y flwyddyn, a'r cyrsiau wedi'u hachredu gan y Cyngor Prydeinig.

10.3. Y Ganolfan Uwchraddedigion

Yn 2013, agorodd Prifysgol Aberystwyth ofod astudio a gofod seminarau arbennig i fyfyrwyr uwchraddedig, wedi ei leoli yn adeilad Llandinam.

10.4. Gwasanaethau Eraill

Bydd eich llawlyfr cyffredinol yn rhoi gwybodaeth ichi am y cyfleusterau a ddarperir gan Undeb y Myfyrwyr, y Swyddfa Cymorth Myfyrwyr, y gwasanaeth Gyrfaoedd ac ati. Fel arfer, y myfyrwyr sy'n cael y budd mwyaf o fywyd Prifysgol yw'r rhai sy'n cyfrannu fwyaf tuag at y bywyd hwnnw. Os cewch unrhyw broblemau, cofiwch y bydd staff yr Athrofa yn fawr eu gofal ohonoch. Dewch i siarad gyda ni ac fe wnawn ein gorau i'ch helpu.

11. Manylion Cyswllt Perthnasol

Dylid cyfeirio'r holl ymholiadau gweinyddol ynghylch ymchwil at mis37@aber.ac.uk yn y lle cyntaf;

Cyfrifoldebau IMPACS				
Cyfarwyddwr yr Athrofa	Yr Athro Qiang Shen	LI-B48	qqqs	2424
Rheolwr yr Athrofa a Chydlunydd Anghenion Arbennig	Mr Dave Smith	LI-B46	dhs	2446
Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig	Dr Daniel Burgarth	MP1.09	dkb3	2757
Cyfarwyddwr Ymchwil	Yr Athro Reyer Zwiggelaar	LI-B61	rrz	8691
Cyfarwyddwr Seilwaith	Mr Dave Price	LI-B59	dap	2428
Gweinyddwr Gweithrediadau Academaidd: Ymchwil	Miss Michelle Symes	LI-B49	mis37	2232
Cyfrifoldebau Cyfrifiadureg				
Pennaeth Adran	Dr Bernie Tiddeman	LI-B43	bpt	1777
Cyfarwyddwr Astudiaethau Ymchwil Uwchraddedig yr Adran	Dr Myra Wilson	LI-C52	mxw	2928
Tiwtor Myfyrwyr Hŷn	Dr Edel Sherratt	MP1.40	eds	2448
Tiwtor Myfyrwyr Rhyngwladol	Dr Fred Labrosse	MP1.03	ffl	2388
Pwyllgor Staff/Myfyrwyr	Dr David Hunter	C35	dah56	8404
Cynrychiolydd GG a'r Llyfrgell	Dr Jun He	LI-E33	jqh	1787
Cynorthwydd Gweithrediadau Academaidd: MSc	Mrs Margaret Walker	LI-B50	zzy	1921
Cynorthwydd Profiad Myfyrwyr		LI-B50		2424
Cyfrifoldebau Mathemateg				
Pennaeth Adran	Yr Athro Simon Cox	MP4.04	sxc	2764
Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig yr Adran	Dr Daniel Burgarth	MP4.02	dkb3	2757
Pwyllgor Staff/Myfyrwyr	Dr Rob Douglas	MP4.24	rsd	2756
Cynrychiolydd GG a'r Llyfrgell	Dr Kim Kenobi	MP4.17	kik10	2767
Cynorthwydd	Miss Sioned	MP2.47	san14	2802

Profiad Myfyrwyr	Newman			
Cyfrifoldebau Ffiseg				
Pennaeth Adran	Yr Athro Andrew Evans	MP2.49	dne	2800
Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig yr Adran	Dr Huw Morgan	MP1.09	hum2	2810
Pwyllgor Staff/Myfyrwyr	Dr Chris Finlayson	MP2.10	cef2	2818
Cynrychiolydd GG a'r Llyfrgell	Dr Heather McCreadie	MP3.08	hem18	8624
Cynorthwydd Profiad Myfyrwyr	Miss Sioned Newman	MP2.47	san14	2802

Atodiad A

Bwrsariaethau Teithio i Fyfyrrwyr Ymchwil

Nod y cynllun Bwrsariaethau Teithio i Fyfyrrwyr Ymchwil yw galluogi myfyrrwyr PhD a'u harolygwyr i gynllunio ymlaen ar gyfer gwariant a fydd yn gysylltiedig â theithio i gynadleddau neu weithdai er mwyn cyflwyno papurau sydd wedi'u hadolygu gan ganolwyr.

Gall pob myfyriwr PhD wneud cais am lwfans enwol o £700 dros gyfnod ei (h)astudiaethau, yn ychwanegol at gronfeydd teithio a fydd ar gael, o bosibl, o'u ffynhonnell gyllid. Dylai cynllunio gwariant o fewn y gyllideb hon fod yn rhan o'ch proses adolygu flynyddol. Nodwch nad yw hwn yn hawl awtomatig gan fod yn rhaid gwneud cais am bob taith neu wariant arall a chael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig yr Adran yn dilyn cadarnhad o faint o arian sydd ar gael yn y gronfa; ni fydd unrhyw gyfran o'r lwfans na fydd wedi'i gwario yn "ddyledus" ichi mewn unrhyw fodd.

Dan amgylchiadau eithriadol, a chyda chyfiawnhad cryf, gellir dyfarnu grantiau uwchlaw'r cyfanswm o £700. Yn yr achosion hyn rhaid cyflwyno cyfiawnhad ysgrifenedig i'r Gyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig ei ystyried, cyn ei gyflwyno i gael ei gadarnhau gan Reolwr yr Athrofa trwy gyfrwng y Gweinyddwr Gweithrediadau Academaidd: Ymchwil.

Datganiad Polisi

1. Rhaid i'r Gyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig gymeradwyo'r holl grantiau teithio cyn y daith arfaethedig.
2. Rhoddir ystyriaeth ffafriol i geisiadau am grantiau teithio (a) os ydych o fewn eich cyfnod astudio a ragnodwyd; (b) os nad ydych yn gofyn am grant o fwy na £700, oni bai eich bod yn cyflwyno papur wedi'i adolygu gan ganolwyr mewn cyfarfod rhyngwladol pwysig y tu allan i Ewrop; (c) os ydych wedi gwneud cais am, neu wedi sicrhau, nawdd o ffynonellau eraill (e.e. grant ymchwil yr arolygydd, prifysgol, trefnwr cynhadledd); (d) os na ddyfarnwyd grant teithio ichi yn flaenorol.
3. Gellir gwrthod ceisiadau os dyfarnwyd ichi, cyn hyn, grantiau â'u cyfanswm yn fwy na £700.
4. Ystyrir pob cais arall fesul achos, gan roi ystyriaeth i grantiau teithio a ddyfarnwyd cyn hyn, a'r cyllid sydd ar gael.
5. Fel arfer ni fernir bod myfyrrwyr PhD sydd y tu hwnt i'r cyfnod astudio arferol yn gymwys am grant.
6. Rhaid i'r holl bapurau neu bosteri nodi'n glir eich cysylltiad â'r Adran Gyfrifiadureg ym Mhrifysgol Aberystwyth.
7. Disgwylir ichi fanteisio ar yr holl docynnau rhad a disgowntiau eraill sydd ar gael. Yn ogystal, (a) dim ond ffioedd cofrestru cynnar fydd yn cael eu had-dalu; (b) gellir ad-dalu ffioedd aelodaeth os ydynt yn caniatáu disgownt ar ffioedd cofrestru sy'n fwy na chost yr aelodaeth; (c) ni fydd costau tudalen yn cael eu had-dalu; (d) ni fydd cost gwleddoedd cynhadledd neu ddigwyddiadau cymdeithasol eraill yn cael eu had-dalu.

Gwneud cais am Grant Teithio i Fyfyrrwyr Ymchwil

Yn y lle cyntaf dylid cyflwyno ceisiadau ar ebost i Gyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig yr Adran. Cyn ichi wneud cais, rhaid ichi fod wedi:

- cadarnhau neu gael amcan o'r holl gostau sy'n ymwneud â'r cais;
- cael dyfynbrisiau gan Gyflenwyr Contractau Corfforaethol megis STA (boed chi'n derbyn y dyfynbris ai peidio);
- cael datganiad cefnogol gan eich arolygydd;
- cael manylion unrhyw nawdd ategol yr ydych yn debygol o'i gael.

Dylech gyflwyno'r holl waith papur i'r Gweinyddwr Gweithrediadau Academaidd: Ymchwil er mwyn cadarnhau faint o arian sydd yn y gronfa cyn gwneud unrhyw archebion neu drefniadau. Er mwyn arbed amser, gellir gwneud hyn ar ebost.